**COFNODION O GYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 17 o Dachwedd 2020 drwy Zoom**

**PRRSENOL:** Y Cynghorwyr Phil Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-Gadeirydd), Goronwy Hughes, Dylan Jones, Meirwen Lloyd, Gwion Llwyd, Iola Parry, Martin Jones, Hefin Jones, Haf Williams, Alan Pritchard

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Cemlyn Jones, Richard Robinson, Beca Brown

**696. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd yn enwedig i'r Cynghorydd Dylan Jones a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf. Fe aeth y Cadeirydd ymlaen i dalu teyrnged i'r diweddar Charles Jones am ei waith ar hyd a lled yr ardal dros niferoedd o flynyddoedd.

**697. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**698. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**699. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 20 Hydref 2020**

Cadarnhawyd cofnodion fis Hydref yn gywir

**700. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

**686 –** Adroddwyd fod trafodaethau yn parhau i symud ymlaen gyda'r gwaith ac fod criw yr Eglwys wrthi'n galed yn parhau i dacluso a paratoi'r fynwent.

**689** – Adroddwyd fod Swyddog Gorfodaeth wedi ei weld o flaen giât yr ysgol un diwrnod ac fod y clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn am ystadegau o ddyddiadau ac amseriadau y swyddog gorfodaeth ac hefyd gwybodaeth am os oedd tocynnau wedi eu cyflwyno

**701. I ystyried creu pecyn ymwybyddiaeth iaith ar gyfer prynwyr tai yn yr ardal (Cyng Haf Williams)**

Adroddwyd gan y Cyng. Haf Williams fod Cyngor Tref Nefyn yn creu pecyn ymwybyddiaeth ar gyfer meddianwyr tai oherwydd yr effaith mai prynwyr yn ei gael ar y farchnad dai leol. Gofynnir am i Cyngor Cymuned Llanrug gefnogi Cyngor Tref Nefyn yn hyn a cefnogi eu ymgyrch i greu pecyn ymwybyddiaeth

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Chlerc Cyngor Tref Nefyn i fynegi fod Cyngor Cymuned Llanrug yn cefnogi eu ymgyrch i greu pecyn ymwybyddiaeth.

**702. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent fod sawl cyfarfod wedi gynnal gyda cynrychiolwyr o Eglwys Saint Mihangel, Llanrug parthed y broses o'r cyngor cymuned fabwysiadu gofal am fynwent yr Eglwys. Nodwyd ymysg y materion angen sylw oedd ein bod yn disgwyl i gario allan asesiad risg ar y fynwent ond yn anffodus oddi tan y cyfyngiadau presennol, nid oedd hyn yn bosib. Gobeithir y gellir cario hyn allan cyn gynted a bydd canllawiau yn caniatáu.

Adroddwyd fod twll wedi ymddangos ar un bedd ac ar hyn o bryd does dim esboniad sut mae hyn wedi digwydd. Mae trefniadau ar y gweill gyda'r teulu i'w lenwi fewn.

Adroddwyd fod paent wedi daflu dros un carreg fedd a mynegwyd pryder am hyn. Ymddengys mai mater personol oedd hyn a dim achos o fandaliaeth cyffredinol yn y fynwent.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**703. I dderbyn adroddiad gan Pwyllgor Cyllid**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac wedi adolygu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Adroddwyd fod man newidiadau wedi ei gwneud i adlewyrchu incwm a gwariant y cyngor yn sgil y sefyllfa bresennol. Adroddwyd ymhellach fod gwaith ar y gweill i baratoi swydd ddisgrifiad ar gyfer Clerc y Cyngor.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**704. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Hamdden a Mwynderau**

Oherwydd absenoldeb y Cynghorydd Cemlyn Jones, Cadeirydd Pwyllgor nid oedd adroddiad ar gael

**705. I dderbyn diweddariad ar sefyllfa trosglwyddant cyfrifoldeb am fynwent Eglwys Saint Mihangel, Llanrug i'r cyngor.**

Adroddwyd fod hyn eisoes wedi gyfeirio ato yn eitem 702 uchod

**706. I dderbyn diweddariad ar gynllun Fairshare**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones fod y cynllun wedi ei sefydlu, fod y gwaith papur wedi ei gwblhau a bydd y pecynnau bwyd cyntaf yn cyrraedd ddydd Gwener. Y trefniadau ydi bydd ef yn casglu'r bwyd o Fangor ac

wedyn i ymgynnull yn yr hen ysgol yn Cwm y Glo am 6:00 yn ar nos Wener i'r becynnu ac wedyn ei ddosbarthu.

Mae'n bwysig nodi mai cymorth yw hwn ar gyfer rhai sydd wedi effeithio gan y Cofid ac sydd wedi eu rhoi ar gynllun ffyrlo, fod eu oriau gwaith wedi eu lleihau neu wedi colli eu gwaith yn gyfan gwbl. Adroddywd os oes rhywun yn clywed am rhywun sydd ei angen, yna i pasio eu manylion ymlaen i'r clerc neu i'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**707. I ystyried materion i ymwneud a iechyd a diogelwch (Cyng Phil Roberts)**

Adroddwyd gan y Cyng. Phil Roberts fod yn angenrheidiol cael polisi iechyd a diogelwch ac un fyddai yn cwmpasu asesiad risg tr mae rhywun yn gweithio ar ben ei hun. Er enghraifft pan mae aelod yn mynychu'r fynwent i gario allan ei ddyletswyddau neu dim yn ymweld.

Nodwyd ymhellach byddai yn fanteisiol i bawb gael cerdyn adnabod yn dangos ei lun ac mai cynghorydd cyngor cymuned ydi ei swyddogaeth.

**Penderfynwyd:** Y Cynghorydd Phil Roberts i ymgysylltu gyda'r clerc i bwrpas mabwysiadu polisi iechyd a diogelwch ac i'r clerc symud ymlaen gyda creu cardiau adnabod.

**708. I dderbyn adroddiad gan y Cyng. Berwyn Parry Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd.**

**Addysg Ôl 16**

Yr ymgynghoriad anffurfiol wedi cychwyn ac bydd yn dod i ben 22 Rhagfyr.

**Grantiau**

Dwi'n falch o ddweud fod y Cyngor yn mynd i dderbyn grant i wneud y gwaith o greu cylchfan ar waelod ffordd Brynrefail lle mae'n cwrdd a ffordd Llanberis, yn ogystal a'r cylchfan fydd y llwybr troed o Llanberis i Cwm y glo hefyd yn cael ei wella.

Mae grant hefyd wedi ei dderbyn i wneud gwelliannau i Ysgol Gynradd Llanrug, does dim dyddiad eto pryd fydd hyn yn digwydd.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**709. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**

https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search

**Rhif y Cais:** C20/0844/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Codi modurdy dwbwl.

**Ymgeisydd:** Mr and Mrs Andrew Haigh

**Cyfeiriad:** Upper Lodge, Bryn Bras, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RF

**Cyfeirnod Grid:** 254210.62, 362570.14

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**710. I ystyried sut i gydnabod cyn aelod o'r cyngor ar ôl blynyddoedd o wasanaeth**

Adroddwyd nad oedd penderfyniad wedi ei wneud eto ar sut i gydnabod gwasanaeth y cyn aelod am wasanaeth o 45 mlynedd ar y cyngor. Awgrymwyd byddai yn ddelfrydol petai rhywbeth yn gallu ei gyflwyno cyn y Nadolig iddo.

**Penderfynwyd:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd ac Avril Jones i chwilio am anrheg priodol ac i drefnu casglu cyfraniadau tuag ato

**711. Gwybodaeth i'w gyhoeddi yn yr Eco.**

Nodwyd fod erthygl wedi ymddangos yn yr Eco a oedd ymhell allan o ddyddiad. Adroddwyd fod criw newydd o dim golygyddol yr Eco nawr.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 20:20

**Arwyddwyd:**

**Cadeirydd:** **Dyddiad:**